

# RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

## Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) Building Safety (Wales) Bill

Mae’r gwelliannau â \* ar eu pwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu  
Amendments marked \* are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag ‘R’ yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant  
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu  
17 wrth gyflwyno’r gwelliant.

Amendments marked ‘R’ mean that the Member has declared either a registrable interest  
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling  
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –  
The Bill will be considered in the following order –

Adran 2	Section 2
Atodlen 1	Schedule 1
Adrannau 3 i 66	Sections 3 to 66
Adran 1	Section 1
Adrannau 67 i 96	Sections 67 to 96
Atodlen 2	Schedule 2
Adrannau 97 i 112	Sections 97 to 112
Atodlen 3	Schedule 3
Atodlen 4	Schedule 4
Adrannau 113 i 114	Sections 113 to 114
Teitl hir	Long title

Jayne Bryant

83

Section 5, page 5, after line 10, insert –

- ‘() Before making regulations under subsection (5), the Welsh Ministers must consult –
- (a) each building safety authority,
  - (b) each fire safety authority, and

(c) such other persons as they consider appropriate.’.

Adran 5, tudalen 5, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘( ) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (5), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –

(a) pob awdurdod diogelwch adeiladau,

(b) pob awdurdod diogelwch tân, ac

(c) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.’.

**Jayne Bryant**

84

Section 5, page 5, line 13, after ‘occupied’, insert ‘as a separate dwelling’.

Adran 5, tudalen 5, llinell 13, ar ôl ‘feddiennir’, mewnosoder ‘fel annedd ar wahân’.

**Jayne Bryant**

1

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 7, tudalen 6, llinell 10, hepgorer ‘bod personau eraill yn cael budd ohono neu bod personau eraill yn ei fwynhau’ a mewnosoder ‘y caiff personau eraill fudd ohono neu y caiff personau eraill fwynhad ohono’.

**Jayne Bryant**

85

Page 8, after line 31, insert a new section –

**‘[ ] Application of sections 9 and 11 in cases of joint ownership etc.**

(1) Subsection (2) applies where, in relation to a regulated building –

(a) two or more persons fall within section 8(2)(a) because they jointly hold a legal estate in possession in the same part of the common parts of the building (or all of the common parts);

(b) two or more persons fall within section 8(2)(b) because –

(i) they are jointly subject to a requirement under a lease to repair or maintain the same part of the common parts of the building (or all of the common parts), or

(ii) they are jointly subject to a requirement by virtue of an enactment to repair or maintain the same part of the common parts of the building (or all of the common parts).

(2) Persons that fall within subsection (1)(a) or (1)(b)(i) or (1)(b)(ii) are to be treated as one accountable person for the purposes of –

(a) section 9(2) and (3) (meaning of principal accountable person);

(b) a determination under section 11(1)(c) (part of the building for which any accountable person is responsible).’.

Tudalen 8, ar ôl llinell 31, mewnosoder adran newydd –

**‘[ ] Cymhwyso adrannau 9 ac 11 mewn achosion o gydberchnogaeth etc.**

- (1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo, mewn perthynas ag adeilad rheoleiddiedig –
- (a) dau neu ragor o bersonau yn dod o fewn adran 8(2)(a) oherwydd eu bod yn dal ar y cyd ystad gyfreithiol mewn meddiant yn yr un rhan o rannau cyffredin yr adeilad (neu yn yr holl rannau cyffredin);
  - (b) dau neu ragor o bersonau yn dod o fewn adran 8(2)(b) oherwydd –
    - (i) eu bod yn ddarostyngedig ar y cyd i ofyniad o dan les i atgyweirio neu gynnal a chadw yr un rhan o rannau cyffredin yr adeilad (neu'r holl rannau cyffredin), neu
    - (ii) eu bod yn ddarostyngedig ar y cyd i ofyniad yn rhinwedd deddfiad i atgyweirio neu gynnal a chadw yr un rhan o rannau cyffredin yr adeilad (neu'r holl rannau cyffredin).
- (2) Mae personau sy'n dod o fewn is-adran (1)(a) neu (1)(b)(i) neu (1)(b)(ii) i'w trin fel un person atebol at ddibenion –
- (a) adran 9(2) a (3) (ystyr prif berson atebol);
  - (b) penderfyniad o dan adran 11(1)(c) (rhan o'r adeilad y mae unrhyw berson atebol yn gyfrifol amdani).

**Jayne Bryant**

2

Section 12, page 9, line 6, leave out '(including any installation)'.

Adran 12, tudalen 9, llinell 6, hepgorer '(gan gynnwys unrhyw osodiad)'.

**Jayne Bryant**

3

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 12, tudalen 9, llinell 9, hepgorer 'y caiff ei defnyddio gan bersonau eraill, bod personau eraill yn cael budd ohoni neu bod personau eraill yn ei mwynhau' a mewnosoder 'ai y caiff ei defnyddio gan bersonau eraill, y caiff personau eraill fudd ohoni neu y caiff personau eraill fwynhad ohoni'.

**Jayne Bryant**

86

Section 13, page 9, line 32, leave out 'under a grant with' and insert 'because of'.

Adran 13, tudalen 9, llinell 34, hepgorer 'a roddir gyda chyfamod' a mewnosoder 'oherwydd cyfamod'.

**Jayne Bryant**

87

Section 14, page 10, line 8, leave out 'to 13' and insert 'and 9'.

Adran 14, tudalen 10, llinell 8, hepgorer 'i 13' a mewnosoder 'a 9'.

**Jayne Bryant**

88

Section 16, page 10, line 26, leave out –

'sections 2 to 14 and Schedule 1.

(2) The regulations may in particular –

- (a) amend Schedule 1 to add, remove or amend a description of building;
- (b) amend sections 3 and 4 to include within the meaning of “building” –
  - (i) other structures or erections (temporary or permanent), or parts of them, either generally or in circumstances specified in the regulations;
  - (ii) vehicles, vessels or other moveable objects, or parts of them, either generally or in circumstances specified in the regulations;
- (c) amend section 6 to add, remove or amend a category of building'

and insert –

' –

- ( ) section 2 to provide that in certain circumstances a building wholly or mainly in Wales is a regulated building, despite the building containing only one residential unit;
- ( ) Schedule 1 to add, remove or amend a description of building;
- ( ) section 3 to provide that the meaning of “building” includes other structures or erections (temporary or permanent), or parts of them, either generally or in certain circumstances;
- ( ) section 4;
- ( ) section 6 to add, remove or amend a category of building;
- ( ) section 7;
- ( ) section 8;
- ( ) section 9;
- ( ) section 12;
- ( ) section 13'.

Adran 16, tudalen 10, llinell 26, hepgorer –

'adrannau 2 i 14 ac Atodlen 1.

(2) Caiff y rheoliadau, yn benodol –

- (a) diwygio Atodlen 1 i ychwanegu, dileu neu ddiwygio disgrifiad o adeilad;
- (b) diwygio adrannau 3 a 4 i gynnwys o fewn ystyr “adeilad” –
  - (i) strwythurau neu godiadau eraill (dros dro neu barhaol), neu rannau ohonynt, naill ai'n gyffredinol neu mewn amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau;
  - (ii) cerbydau, llestrau neu wrthrychau symudol eraill, neu rannau ohonynt, naill ai'n gyffredinol neu mewn amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau;
- (c) diwygio adran 6 i ychwanegu, dileu neu ddiwygio categori adeilad'

a mewnosoder –

' –

- ( ) adran 2 i ddarparu bod, mewn amgylchiadau penodol, adeilad sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru yn adeilad rheoleiddiedig, er bod yr adeilad yn cynnwys ond un uned breswyl;
- ( ) Atodlen 1 i ychwanegu, dileu neu ddiwygio disgrifiad o adeilad;
- ( ) adran 3 i ddarparu bod ystyr "adeilad" yn cynnwys strwythurau neu godiadau eraill (dros dro neu barhaol), neu rannau ohonynt, naill ai'n gyffredinol neu mewn amgylchiadau penodol;
- ( ) adran 4;
- ( ) adran 6 i ychwanegu, dileu neu ddiwygio categori adeilad;
- ( ) adran 7;
- ( ) adran 8;
- ( ) adran 9;
- ( ) adran 12;
- ( ) adran 13'.

**Jayne Bryant**

4

Section 17, page 11, line 15, leave out 'the building safety' and insert 'an enforcing'.

Adran 17, tudalen 11, llinell 15, hepgorer 'yr awdurdod diogelwch adeiladau' a mewnosoder 'awdurdod gorfodi'.

**Jayne Bryant**

89

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 18, tudalen 12, llinell 2, hepgorer 'bod yr adeilad yn cael' a mewnosoder 'dros y ffaith bod yr adeilad wedi'.

**Jayne Bryant**

90

Section 19, page 12, line 11, leave out 'may' and insert 'must'.

Adran 19, tudalen 12, llinell 11, hepgorer 'Caiff Gweinidogion' a mewnosoder 'Rhaid i Weinidogion'.

**Jayne Bryant**

91

Section 19, page 12, at the beginning of line 14, insert 'Regulations under subsection (3) may make provision about'.

Adran 19, tudalen 12, ar ddechrau llinell 14, mewnosoder 'Caiff rheoliadau o dan is-adran (3) wneud darpariaeth ynghylch'.

**Jayne Bryant**

92

Section 23, page 14, line 29, leave out 'may' and insert 'must'.

Adran 23, tudalen 14, llinell 30, hepgorer 'Caiff Gweinidogion' a mewnosoder 'Rhaid i Weinidogion'.

**Joel James** 150

Section 28, page 19, line 2, after '15)', insert ', not including residential units'.

Adran 28, tudalen 19, llinell 2, ar ôl '15)', mewnosoder ', heb gynnwys unedau preswyl'.

**Joel James** 152

Section 30, page 19, line 36, leave out –

'first fire risk assessment for a regulated building must be made no later than 6 months after the later of the following –

- (a) the day on which the building becomes occupied;
- (b) the day on which this section comes into force'

and insert –

'Welsh Government must by regulation set out when the first fire risk assessment for a regulated building must be made'.

Adran 30, tudalen 19, llinell 37, hepgorer –

'gwneud yr asesiad risg tân cyntaf ar gyfer adeilad rheoleiddiedig heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl y diweddaraf o'r hyn a ganlyn –

- (a) y diwrnod y caiff yr adeilad ei feddiannu;
- (b) y diwrnod y daw'r adran hon i rym.

a mewnosoder –

'i Weinidogion Cymru drwy reoliadau nodi pryd y mae rhaid gwneud yr asesiad risg tân cyntaf ar gyfer adeilad rheoleiddiedig'.

**Joel James** 151

Section 30, page 19, line 36, leave out 'regulated' and insert 'category 1 or category 2'.

Adran 30, tudalen 19, llinell 37, hepgorer 'rheoleiddiedig' a mewnosoder 'categori 1 neu gategori 2'.

**Joel James** 153

Section 30, page 20, after line 1, insert –

'() The first fire risk assessment for a category 3 building must be made no later than 12 months after the later of the following –

- (a) the day on which the building becomes occupied;
- (b) the day on which this section comes into force.'

Adran 30, tudalen 20, ar ôl llinell 1, mewnosoder –

'() Rhaid gwneud yr asesiad risg tân cyntaf ar gyfer adeilad categori 3 heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl y diweddaraf o'r hyn a ganlyn –

- (a) y diwrnod y caiff yr adeilad ei feddiannu;
- (b) y diwrnod y daw’r adran hon i rym.’.

**Joel James**

**154**

Section 30, page 20, line 7, leave out ‘to adapt any part of the building’ and insert ‘for the first time in relation to the building to adapt any part of it’.

Adran 30, tudalen 20, llinell 7, hepgorer ‘i addasu unrhyw ran o’r adeilad’ a mewnosoder ‘am y tro cyntaf mewn perthynas â’r adeilad i addasu unrhyw ran ohono’.

**Joel James**

**155**

Section 30, page 20, after line 19, insert—

- ‘( ) Subsections (2)(a) and (2)(b) apply only where such works constitute a significant change to the matters to which the fire risk assessment relates.
- ( ) The Welsh Ministers may give guidance as to what constitutes a significant change for the purpose of subsection (*[the first subsection to be inserted by this amendment]*).’.

Adran 30, tudalen 20, ar ôl llinell 19, mewnosoder—

- ‘( ) Mae is-adrannau (2)(a) a (2)(b) yn gymwys ond pan fo gwaith o’r fath yn gyfystyr â newid sylweddol i’r materion y mae’r asesiadau risg tân yn ymwneud â hwy.
- ( ) Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau ynghylch beth sy’n gyfystyr â newid sylweddol at ddiben is-adran (*[yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn]*).’.

**Joel James**

**156**

Section 30, page 20, line 24, after ‘reviewed’, insert ‘, so as to ensure it remains suitable and sufficient,’.

Adran 30, tudalen 20, llinell 24, ar ôl ‘adolygu’, mewnosoder ‘, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas ac yn ddigonol,’.

**Joel James**

**157**

Section 33, page 22, line 20, leave out ‘each’ and insert ‘the principal’.

Adran 33, tudalen 22, llinell 21, hepgorer ‘i bob person’ a mewnosoder ‘i’r prif berson’.

**Joel James**

**158**

Section 33, page 22, line 22, leave out ‘for which the person is responsible’.

Adran 33, tudalen 22, llinell 23, hepgorer ‘y mae’r person yn gyfrifol amdani’.

**Joel James** 159

Section 33, page 22, line 29, leave out 'the accountable person who is responsible for that part (or any other person who is treated as such' and insert 'each accountable person for the building and any other person who is treated as'.

Adran 33, tudalen 22, llinell 29, hepgorer 'alluogi'r person atebol sy'n gyfrifol am y rhan honno (neu unrhyw berson arall sy'n cael ei drin fel person atebol o'r fath' a mewnosoder 'alluogi pob person atebol ar gyfer yr adeilad (ac unrhyw berson arall sy'n cael ei drin fel person atebol'.

**Joel James** 160

Section 33, page 22, line 32, leave out 'An' and insert 'The principal'.

Adran 33, tudalen 22, llinell 32, hepgorer 'person' a mewnosoder 'y prif berson'.

**Joel James** 161

Section 33, page 22, line 35, leave out 'an' and insert 'the principal'.

Adran 33, tudalen 22, llinell 35, ar ôl 'yn' yn yr ail le y mae'n ymddangos, mewnosoder 'brif'.

**Joel James** 162

Section 33, page 23, line 1, after 'the' at the first place where it occurs on a line, insert 'principal'.

Adran 33, tudalen 23, llinell 1, hepgorer 'person' a mewnosoder 'prif berson'.

**Joel James** 163

Section 33, page 23, line 4, after 'the' at the first place where it occurs on a line, insert 'principal'.

Adran 33, tudalen 23, llinell 4, hepgorer 'person' a mewnosoder 'prif berson'.

**Joel James** 164

Section 33, page 23, line 6, leave out 'An accountable person who is responsible for a part of a' and insert 'The principal accountable person for a regulated'.

Adran 33, tudalen 23, llinell 6, hepgorer 'i berson atebol sy'n gyfrifol am ran o adeilad' a mewnosoder 'i'r prif berson atebol ar gyfer adeilad rheoleiddiedig'.

**Joel James** 165

Section 33, page 23, line 9, leave out –

'the principal accountable person for the building (where the accountable person is not the principal accountable person)'

and insert –

' \_

- ( ) every other accountable person for the building (where there is more than one accountable person), and
- ( ) any other person who is treated as an accountable person by virtue of section 35'.

Adran 33, tudalen 23, llinell 9, hepgorer –

'i'r prif berson atebol ar gyfer yr adeilad (pan nad y person atebol yw'r prif berson atebol)' a mewnosoder –

' –

- ( ) i bob person arall sy'n gyfrifol am yr adeilad (pan fo mwy nag un person atebol), a
- ( ) i unrhyw berson arall sy'n cael ei drin fel person atebol yn rhinwedd adran 35'.

**Jayne Bryant**

**93**

Section 33, page 23, line 15, leave out 'body' and insert 'organisation'.

Adran 33, tudalen 23, llinell 15, hepgorer 'gorff penodol, neu aelodaeth o gorff' a mewnosoder 'sefydliad penodol, neu aelodaeth o sefydliad'.

**Joel James**

**166**

Section 33, page 23, line 19, leave out 'an' and insert 'the principal'.

Adran 33, tudalen 23, llinell 20, hepgorer 'person' a mewnosoder 'y prif berson'.

**Sian Gwenllian**

**143**

Page 25, after line 2, insert a new section –

**[ ] Remediation works**

The Welsh Ministers may by regulations make provision for and in connection with deadlines for the completion of remediation works required for regulated buildings and sanctions for failure to comply with those deadlines.'

Tudalen 25, ar ôl llinell 2, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Gwaith cyweirio**

Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â dyddiadau cau ar gyfer cwblhau gwaith cyweirio sydd ei angen ar gyfer adeiladau rheoleiddiedig a sancsiynau am fethu â chydymffurfio â'r dyddiadau cau hynny.'

**Sian Gwenllian**

**144**

Page 25, after line 2, insert a new section –

**[ ] Remediation Plan**

- (1) The Welsh Ministers must prepare and publish a remediation plan for category 1 and category 2 buildings identified as requiring remediation work.
- (2) The remediation plan must include—
  - (a) a list and brief description of the works required,
  - (b) a timetable setting out completion dates for the work, and
  - (c) a list of actions to be taken by the Welsh Ministers if completion of remediation works are not completed by the agreed completion dates.
- (3) The Welsh Ministers must publish the first remediation plan before the end of 90 days starting with the day this section comes into force.
- (4) The Welsh Ministers may revise the remediation plan from time to time and must publish the remediation plan as revised.
- (5) The Welsh Ministers must, on every calendar month or until all works are completed, publish a progress report, which monitors and sets out whether work listed under the remediation plan has been completed on time.
- (6) The Welsh Ministers must publish the first progress report before the end of 30 days starting with the day the first remediation plan was published.’.

Tudalen 25, ar ôl llinell 2, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Cynllun Cyweirio**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi cynllun cyweirio ar gyfer adeiladau categori 1 a chategori 2 y nodwyd bod angen gwaith cyweirio arnynt.
- (2) Rhaid i'r cynllun cyweirio gynnwys –
  - (a) rhestr a disgrifiad byr o'r gwaith sydd ei angen,
  - (b) amserlen sy'n nodi dyddiadau cwblhau ar gyfer y gwaith, ac
  - (c) rhestr o gamau i'w cymryd gan Weinidogion Cymru os na chwblheir gwaith cyweirio erbyn y dyddiadau cwblhau y cytunwyd arnynt.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cynllun cyweirio cyntaf cyn diwedd 90 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r adran hon i rym.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r cynllun cyweirio o bryd i'w gilydd a rhaid iddynt gyhoeddi'r cynllun cyweirio fel y'i diwygiwyd.
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru, bob mis calendr neu hyd nes y bydd yr holl waith wedi ei gwblhau, gyhoeddi adroddiad cynnydd, sy'n monitro ac yn nodi a yw gwaith a restrir o dan y cynllun cyweirio wedi ei gwblhau'n brydlon.
- (6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad cynnydd cyntaf cyn diwedd 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddwyd y cynllun cyweirio cyntaf.’.

Jayne Bryant

94

Section 38, page 27, line 23, leave out 'as' and insert 'relating'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.

**Joel James** 167

Section 39, page 27, line 28, after 'building', insert 'or an occupied category 2 building'.

Adran 39, tudalen 27, llinell 28, ar ôl 'feddiennir', mewnosoder 'neu adeilad categori 2 a feddiennir'.

**Jayne Bryant** 5

Section 39, page 28, after line 17, insert –

'() When preparing the residents' engagement strategy the principal accountable person must –

(a) consult relevant persons, and any other persons specified in regulations, about the proposed contents of the strategy, and

(b) take into account any representations made in response to the consultation.'

Adran 39, tudalen 28, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

'() Wrth lunio'r strategaeth ymgysylltu â phreswylwyr rhaid i'r prif berson atebol –

(a) ymgynghori â phersonau perthnasol, ac unrhyw bersonau eraill a bennir mewn rheoliadau, ynghylch cynnwys arfaethedig y strategaeth, a

(b) ystyried unrhyw sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad.'

**Jayne Bryant** 6

Section 39, page 28, line 23, after 'about', insert 'proposed revisions to'.

Adran 39, tudalen 28, llinell 27, hepgorer 'y' a mewnosoder 'diwygiadau arfaethedig i'r'.

**Jayne Bryant** 7

Section 39, page 28, line 24, leave out 'when next reviewing the strategy'.

Adran 39, tudalen 28, llinell 29, hepgorer 'pan adolygir y strategaeth y tro nesaf'.

**Jayne Bryant** 8

Section 39, page 28, line 29, after 'section', insert 'or regulations made under it'.

Adran 39, tudalen 28, llinell 34, ar ôl 'hon', mewnosoder 'neu reoliadau a wneir oddi tani'.

**Jayne Bryant** 95

Page 33, after line 3, insert a new section –

[ ] **Duty to give information and documents to accountable persons**

- (1) Where this subsection applies, a person who is a relevant person in relation to a regulated building must give information or a document to an accountable person (“P”) for the building (see also article 22D of the Fire Safety Order).
- (2) For the purposes of this section a person is a relevant person in relation to a regulated building if the person –
  - (a) is an accountable person for the building;
  - (b) is a duty holder for a relevant HMO in the building;
  - (c) holds a legal estate in any part of the building;
  - (d) holds a legal estate in any part of premises that form part of the same structure or set of structures as the building and are wholly or partly above or below the building.
- (3) Subsection (1) applies where –
  - (a) the information or document is necessary for P to comply with a requirement under this Act or regulations made under it,
  - (b) P gives the relevant person a written request that –
    - (i) states that the request is made pursuant to this section,
    - (ii) explains why P requires the information or document,
    - (iii) states the address to which the information or document must be given, and
    - (iv) states that the information or document must be given before the end of a specified date no less than 14 days after the day on which the request is given,
  - (c) it is reasonable for the relevant person to give P the information or document, and
  - (d) in the case of a request for information, P cannot request the information from the relevant person under section 51(4) or 52(4) (duties of residents and owners).
- (4) The disclosure of information or a document in accordance with this section does not breach –
  - (a) any obligation of confidence owed by the person making the disclosure, or
  - (b) any other restriction on the disclosure of information or a document (however imposed).
- (5) But see also section 183A of the Data Protection Act 2018 (c. 12) (protection of requirements for processing personal data).
- (6) In this section, references to an accountable person include a person who is treated as an accountable person by virtue of section 35.’.

Tudalen 33, ar ôl llinell 3, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Dyletswydd i roi gwybodaeth a dogfennau i bersonau atebol**

- (1) Pan fo’r is-adran hon yn gymwys, rhaid i berson sy’n berson perthnasol mewn perthynas ag adeilad rheoleiddiedig roi gwybodaeth neu ddogfen i berson atebol (“P”) ar gyfer yr adeilad (gweler hefyd erthygl 22D o’r Gorchymyn Diogelwch Tân).
- (2) At ddibenion yr adran hon, mae person yn berson perthnasol mewn perthynas ag adeilad rheoleiddiedig os yw’r person –
  - (a) yn berson atebol ar gyfer yr adeilad;

- (b) yn ddeiliad dyletswydd ar gyfer tŷ amlfeddiannaeth perthnasol yn yr adeilad;
  - (c) yn dal ystad gyfreithiol yn unrhyw ran o'r adeilad;
  - (d) yn dal ystad gyfreithiol yn unrhyw ran o fangre sy'n ffurfio rhan o'r un strwythur neu set o strwythurau â'r adeilad ac sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol uwch ben neu o dan yr adeilad.
- (3) Mae is-adran (1) yn gymwys pan –
- (a) bo'r wybodaeth neu'r ddogfen yn angenrheidiol i P gydymffurfio â gofyniad o dan y Ddeddf hon neu reoliadau a wneir oddi tani,
  - (b) bo P yn rhoi i'r person perthnasol gais ysgrifenedig sy'n –
    - (i) nodi y gwneir y cais yn unol â'r adran hon,
    - (ii) esbonio pam y mae'r wybodaeth neu'r ddogfen yn ofynnol gan P,
    - (iii) datgan y cyfeiriad y mae rhaid rhoi'r wybodaeth neu'r ddogfen iddo, a
    - (iv) datgan bod rhaid rhoi'r wybodaeth neu'r ddogfen cyn diwedd dyddiad penodedig heb fod yn llai na 14 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y rhoddir y cais,
  - (c) bo'n rhesymol i'r person perthnasol roi i P yr wybodaeth neu'r ddogfen, a
  - (d) yn achos cais am wybodaeth, ni all P wneud cais am yr wybodaeth gan y person perthnasol o dan adran 51(4) neu 52(4) (dyletswyddau preswylwyr a pherchnogion).
- (4) Nid yw datgelu gwybodaeth neu ddogfen yn unol â'r adran hon yn torri –
- (a) unrhyw rwymedigaeth gyfrinachedd sy'n ddyledus gan y person sy'n gwneud y datgeliad, neu
  - (b) unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth neu ddogfen (sut bynnag y caiff ei osod).
- (5) Ond gweler hefyd adran 183A o Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12) (diogelu gofynion ar gyfer prosesu data personol).
- (6) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at berson atebol yn cynnwys person sy'n cael ei drin fel person atebol yn rhinwedd adran 35.'.

**Sian Gwenllian**

**145**

Section 45, page 33, line 5, leave out 'may' and insert 'must'.

Adran 45, tudalen 33, llinell 5, hepgorer 'Caiff Gweinidogion' a mewnosoder 'Rhaid i Weinidogion'.

**Sian Gwenllian**

**146**

Section 45, page 33, after line 8, insert –

- '() Regulations under section 45(1) must be made within 12 months of the day on which this Act received Royal Assent.'

Adran 45, tudalen 33, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

- '() Rhaid i reoliadau o dan adran 45(1) gael eu gwneud o fewn 12 mis i'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.'

**Sian Gwenllian**

147

Section 46, page 33, line 26, leave out 'may' and insert 'must'.

Adran 46, tudalen 33, llinell 26, hepgorer 'Caiff Gweinidogion' a mewnosoder 'Rhaid i Weinidogion'.

**Jayne Bryant**

9

Page 39, after line 7, insert a new section –

**[ ] Fire resistance of residential units: duty to repair**

- (1) This section applies to a person who –
  - (a) is aware of damage to a part of a residential unit in an occupied regulated building (whether the damage is wear and tear or other damage) that falls within subsection (3), and
  - (b) falls within subsection (5) in relation to the part.
- (2) A person to whom this section applies must ensure the damage is repaired.
- (3) Damage falls within this subsection if it –
  - (a) gives rise to a significant risk of fire spread, or
  - (b) significantly increases any existing risk of fire spread.
- (4) The reference in subsection (3) to a risk of fire spread means a risk that, if fire breaks out in the residential unit, the fire will spread from the unit.
- (5) A person falls within this subsection in relation to a part of a residential unit if the person is –
  - (a) subject to a requirement under a lease or by virtue of an enactment (other than this section), to repair or maintain the part, or
  - (b) the owner of the residential unit, if there is no person who falls within paragraph (a) in relation to the part.
- (6) This section does not affect a requirement to which the person is subject to repair or maintain the part.'

Tudalen 39, ar ôl llinell 7, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Gwrthiant tân unedau preswyl: dyletswydd i atgyweirio**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys i berson sydd –
  - (a) yn ymwybodol o ddifrod i ran o uned breswyl mewn adeilad rheoleiddiedig a feddiennir (pa un a yw'r difrod yn draul neu'n ddifrod arall) sy'n dod o fewn is-adran (3), a
  - (b) yn dod o fewn is-adran (5) mewn perthynas â'r rhan.
- (2) Rhaid i berson y mae'r adran hon yn gymwys iddo sicrhau y caiff y difrod ei atgyweirio.
- (3) Mae difrod yn dod o fewn yr is-adran hon os yw –
  - (a) yn arwain at risg sylweddol o ledaeniad tân, neu
  - (b) yn cynyddu'n sylweddol unrhyw risg bresennol o ledaeniad tân.

- (4) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (3) at risg o ledaeniad tân yn golygu risg, os bydd tân yn cychwyn yn yr uned breswyl, y bydd y tân yn lledaenu o'r uned.
- (5) Mae person yn dod o fewn yr is-adran hon mewn perthynas â rhan o uned breswyl os –
  - (a) yw'r person yn ddarostyngedig i ofyniad o dan les neu yn rhinwedd deddfiad (ac eithrio'r adran hon), i atgyweirio neu gynnal a chadw'r rhan, neu
  - (b) y person yw perchennog yr uned breswyl, os nad oes unrhyw berson yn dod o fewn paragraff (a) mewn perthynas â'r rhan.
- (6) Nid yw'r adran hon yn effeithio ar ofyniad y mae'r person yn ddarostyngedig iddo i atgyweirio neu gynnal a chadw y rhan.'

**Jayne Bryant**

**10**

Page 39, after line 7, insert a new section –

**[ ] Entry to residential units for purpose of repairs**

- (1) This section applies where –
  - (a) by virtue of section [section to be inserted by amendment 9], a person (“P”) is under a duty to ensure that damage to a part of a residential unit is repaired,
  - (b) P makes a request to a relevant person for entry to the unit or part of the unit, by P or persons authorised by P, for the purpose of carrying out the repairs,
  - (c) the request complies with subsection (2), and
  - (d) entry to the unit or the part of the unit is not given.
- (2) A request complies with this subsection if it –
  - (a) is in writing,
  - (b) explains that, by virtue of section [section to be inserted by amendment 9], P is under a duty to ensure that damage to a part of the unit is repaired,
  - (c) sets out the repairs to be carried out,
  - (d) requests entry on a date or dates, and at times, that are reasonable, and
  - (e) is given to the relevant person –
    - (i) at least 48 hours before the time at which entry is requested, or
    - (ii) if entry on more than one date is requested, at least 48 hours before the earliest time at which entry is requested.
- (3) P may apply to a residential property tribunal for a repairs access order.
- (4) But P may not apply for a repairs access order unless P has given to the building safety authority and the fire safety authority for the building a notice setting out the intention to apply for a repairs access order in respect of the relevant person and the residential unit (both of which must be specified in the notice).
- (5) A repairs access order is an order that requires the relevant person to allow P or persons authorised by P to –
  - (a) enter the residential unit or part of the residential unit, and
  - (b) carry out the repairs set out in the request under subsection (2)(c).



- (6) A residential property tribunal may make a repairs access order if satisfied that –
  - (a) it is necessary for the repairs set out in the request under subsection (2)(c) to be carried out, and
  - (b) it is necessary to enter the unit or part of the unit to carry out the repairs.
- (7) The repairs access order must specify a date on which, or a period within which, entry to the unit or part of the unit may be made.
- (8) In this section “relevant person” means –
  - (a) in relation to a residential unit –
    - (i) an adult resident of the unit, or
    - (ii) if there is no such resident, any person who has control over entry to the unit;
  - (b) in relation to a part of a residential unit –
    - (i) an adult resident of the unit who has control over entry to the part, or
    - (ii) if there is no such resident, any person who has control over entry to the part.’.

Tudalen 39, ar ôl llinell 7, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Mynediad i unedau preswyl at ddiben atgyweirio**

- (1) Mae’r adran hon yn gymwys pan –
  - (a) bo, yn rhinwedd adran [*adran i’w mewnosod gan welliant 9*], person (“P”) o dan ddyletswydd i sicrhau y caiff difrod i ran o uned breswyl ei atgyweirio,
  - (b) bo P yn gwneud cais i berson perthnasol am fynediad i’r uned neu ran o’r uned, gan P neu bersonau a awdurdodir gan P, at y diben o wneud yr atgyweirio,
  - (c) bo’r cais yn cydymffurfio ag is-adran (2), a
  - (d) na roddir mynediad i’r uned neu i’r rhan o’r uned.
- (2) Mae cais yn cydymffurfio â’r is-adran hon os yw –
  - (a) yn ysgrifenedig,
  - (b) yn egluro bod P, yn rhinwedd adran [*adran i’w mewnosod gan welliant 9*], o dan ddyletswydd i sicrhau y caiff difrod i ran o’r uned ei atgyweirio,
  - (c) yn nodi’r atgyweiriadau sydd i’w gwneud,
  - (d) yn gofyn am fynediad ar ddyddiad neu ddyddiadau, ac ar amserau, sy’n rhesymol, ac
  - (e) yn cael ei roi i’r person perthnasol –
    - (i) o leiaf 48 awr cyn yr amser y gofynnir i gael mynediad, neu
    - (ii) os gofynnir am fynediad ar fwy nag un dyddiad, o leiaf 48 awr cyn yr amser cynharaf y gofynnir i gael mynediad.
- (3) Caiff P wneud cais i dribiwnlys eiddo preswyl am orchymyn mynediad ar gyfer atgyweirio.

- (4) Ond ni chaiff P wneud cais am orchymyn mynediad ar gyfer atgyweirio oni bai bod P wedi rhoi hysbysiad i'r awdurdod diogelwch adeiladau a'r awdurdod diogelwch tân ar gyfer yr adeilad yn nodi'r bwriad i wneud cais am orchymyn mynediad ar gyfer atgyweirio mewn cysylltiad â'r person perthnasol a'r uned breswyl (y mae rhaid i'r ddau ohonynt gael eu pennu yn yr hysbysiad).
- (5) Mae gorchymyn mynediad ar gyfer atgyweirio yn orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol ganiatáu i P neu bersonau a awdurdodir gan P i—
  - (a) mynd i'r uned breswyl neu ran o'r uned breswyl, a
  - (b) gwneud yr atgyweiriadau a nodir yn y cais o dan is-adran (2)(c).
- (6) Caiff tribiwnlys eiddo preswyl wneud gorchymyn mynediad ar gyfer atgyweirio os yw'n fodlon ei bod—
  - (a) yn angenrheidiol i'r atgyweiriadau a nodir yn y cais o dan is-adran (2)(c) i gael eu pdagwneud, a
  - (b) yn angenrheidiol i fynd i'r uned neu ran o'r uned i wneud yr atgyweiriadau.
- (7) Rhaid i'r gorchymyn mynediad ar gyfer atgyweirio bennu dyddiad y caniateir mynd i'r uned neu ran o'r uned, neu gyfnod y caniateir i'r mynediad ddigwydd ynddo.
- (8) Yn yr adran hon ystyr "person perthnasol" yw—
  - (a) mewn perthynas ag uned breswyl—
    - (i) preswylydd sy'n oedolyn yn yr uned, neu
    - (ii) os nad oes preswylydd o'r fath, unrhyw berson a chanddo reolaeth dros fynediad i'r uned;
  - (b) mewn perthynas â rhan o uned breswyl—
    - (i) preswylydd sy'n oedolyn yn yr uned a chanddo reolaeth dros fynediad i'r rhan, neu
    - (ii) os nad oes preswylydd o'r fath, unrhyw berson a chanddo reolaeth dros fynediad i'r rhan.'

**Jayne Bryant**

**11**

Section 53, page 39, after line 20, insert—

- '( ) enabling the accountable person to determine whether there has been compliance with section [section to be inserted by amendment 9] (repair of fire resistance of residential units);'

Adran 53, tudalen 39, ar ôl llinell 21, mewnosoder—

- '( ) galluogi'r person atebol i benderfynu a gydymffurfiwyd ag adran [adran i'w mewnosod gan welliant 9] (atgyweirio gwrthiant tân unedau preswyl);'

**Jayne Bryant**

**96**

Section 53, page 39, line 35, leave out 'if made for the purpose mentioned in subsection (2)(e), sets out the name of the person who is treated as an accountable person' and insert 'sets out the name of the person who is treated as an accountable person if made for the purpose mentioned in subsection (2)(e)'.

Adran 53, tudalen 39, llinell 37, hepgorer 'yn cael ei wneud at y diben a grybwyllir yn is-adran (2)(e), yn nodi enw'r person sy'n cael ei drin fel person atebol' a mewnosoder 'yn nodi enw'r person sy'n cael ei drin fel person atebol os y'i gwneir at y diben a grybwyllir yn is-adran (2)(e)'.

**Jayne Bryant**

12

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.  
Adran 53, tudalen 39, llinell 39, hepgorer 'fynd i'r fangre' a mewnosoder 'fynediad'.

**Jayne Bryant**

97

Section 53, page 40, line 10, after 'request', insert 'under subsection (3)(d)'.  
Adran 53, tudalen 40, llinell 11, ar ôl 'cais', mewnosoder 'o dan is-adran (3)(d)'.

**Jayne Bryant**

98

Section 53, page 40, line 13, after 'request', insert 'under subsection (3)(b)'.  
Adran 53, tudalen 40, llinell 13, ar ôl 'cais', mewnosoder 'o dan is-adran (3)(b)'.

**Jayne Bryant**

99

Section 53, page 40, line 18, after 'request', insert 'under subsection (3)(b)'.  
Adran 53, tudalen 40, llinell 18, ar ôl 'cais', mewnosoder 'o dan is-adran (3)(b)'.

**Jayne Bryant**

13

Section 53, page 41, after line 1, insert –

- '() in relation to a request made for the purpose mentioned in subsection([*paragraph to be inserted by amendment 11*]) –
- (i) if the request is made by a principal accountable person, a residential unit, or a part of a residential unit, in the building;
  - (ii) if the request is made by any other accountable person, a residential unit, or a part of a residential unit, in the part of the building for which the accountable person is responsible;'

Adran 53, tudalen 40, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- '() mewn perthynas â chais a wneir at y diben a grybwyllir yn is-adran (2)([*paragraff i'w mewnosod gan welliant 11*]) –
- (i) os gwneir y cais gan brif berson atebol, uned breswyl, neu ran o uned breswyl, yn yr adeilad;
  - (ii) os gwneir y cais gan unrhyw berson atebol arall, uned breswyl, neu ran o uned breswyl, yn y rhan o'r adeilad y mae'r person atebol yn gyfrifol amdani;'

**Jayne Bryant** 14

Section 54, page 41, line 21, after 'notice', insert 'under this section'.

Adran 54, tudalen 41, llinell 19, ar ôl 'rhybuddio', mewnosoder 'o dan yr adran hon'.

**Jayne Bryant** 15

Section 54, page 42, line 13, after 'notice' at the first place where it appears, insert 'under this section'.

Adran 54, tudalen 42, llinell 13, ar ôl 'rhybuddio', mewnosoder 'o dan yr adran hon'.

**Jayne Bryant** 16

Section 54, page 42, line 30, after 'notice', insert 'under this section'.

Adran 54, tudalen 42, llinell 30, ar ôl 'rhybuddio', mewnosoder 'o dan yr adran hon'.

**Jayne Bryant** 17

Section 54, page 42, line 34, leave out subsection (10) and insert –

**[ ] Power of accountable person to give warning notice: repair of fire resistance of residential units**

- (1) A warning notice under this section may be given to a person to whom section [section to be inserted by amendment 9] applies in relation to a part of a residential unit in an occupied regulated building.
- (2) A warning notice under this section may be given by –
  - (a) the accountable person who is responsible for the part of the building containing the residential unit;
  - (b) the principal accountable person for the building.
- (3) A warning notice under this section is a notice that –
  - (a) specifies the repairs that the accountable person considers that the person referred to in subsection (1) –
    - (i) has failed to carry out, and
    - (ii) should carry out within a reasonable period specified in the notice, and
  - (b) explains –
    - (i) that if the person does not comply with the notice the accountable person may apply under section 55 for a contravention order, and
    - (ii) the effect of such an order.
- (4) An accountable person who gives a warning notice under this section must ensure that any other person who is an accountable person for the building is informed as soon as reasonably practicable.'

Adran 54, tudalen 42, llinell 34, hepgorer is-adran (10) a mewnosoder –

**[ ] Pŵer person atebol i roi hysbysiad rhybuddio: atgyweirio gwrthiant tân unedau preswyl**

- (1) Caniateir rhoi hysbysiad rhybuddio o dan yr adran hon i berson y mae adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 9*] yn gymwys iddo mewn perthynas â rhan o uned breswyl mewn adeilad rheoleiddiedig a feddiennir.
- (2) Caniateir rhoi hysbysiad rhybuddio o dan yr adran hon gan –
  - (a) y person atebol sy'n gyfrifol am y rhan o'r adeilad sy'n cynnwys yr uned breswyl;
  - (b) y prif berson atebol ar gyfer yr adeilad.
- (3) Hysbysiad rhybuddio o dan yr adran hon yw hysbysiad sydd –
  - (a) yn pennu'r atgyweiriadau y mae'r person atebol yn ystyried –
    - (i) bod y person y cyfeirir ato yn is-adran (1) wedi methu eu gwneud, a
    - (ii) y dylai'r person hwnnw eu gwneud o fewn cyfnod rhesymol a bennir yn yr hysbysiad, a
  - (b) yn egluro –
    - (i) os nad yw'r person yn cydymffurfio â'r hysbysiad y caiff y person atebol wneud cais o dan adran 55 am orchymyn torri, a
    - (ii) effaith gorchymyn o'r fath.
- (4) Rhaid i berson atebol sy'n rhoi hysbysiad rhybuddio o dan yr adran hon sicrhau bod unrhyw berson arall sy'n berson atebol ar gyfer yr adeilad yn cael ei hysbysu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.'.

**Jayne Bryant**

18

Section 55, page 43, after line 8, insert –

- '( ) An accountable person for a regulated building may apply to a residential property tribunal for a contravention order to be made in respect of a person where the accountable person –
- (a) has given a warning notice to the person in accordance with section [*section to be inserted by amendment 17*], and
  - (b) considers that the person has failed to carry out the repairs specified in the notice under section [*section to be inserted by amendment 17*](3)(a).'

Adran 55, tudalen 43, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- '( ) Caiff person atebol ar gyfer adeilad rheoleiddiedig wneud cais i dribiwnlys eiddo preswyl i orchymyn torri gael ei wneud mewn cysylltiad â pherson pan fo'r person atebol –
- (a) wedi rhoi hysbysiad rhybuddio i'r person yn unol ag adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 17*], a
  - (b) yn ystyried bod y person wedi methu â gwneud yr atgyweiriadau a bennir yn yr hysbysiad o dan adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 17*](3)(a).'

**Jayne Bryant**

19

Section 55, page 43, line 12, after 'is', insert ' –

( ) in a case in which a warning notice was given under section 54,'.

Adran 55, tudalen 43, llinell 11, ar ôl 'torri', mewnosoder ' –

( ) mewn achos pan roddwyd hysbysiad rhybuddio o dan adran 54,'.

**Jayne Bryant**

20

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 55, tudalen 43, llinell 14, hepgorer 'benodol' a mewnosoder 'benodedig'.

**Jayne Bryant**

21

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 55, tudalen 43, llinell 16, hepgorer 'benodol' a mewnosoder 'benodedig'.

**Jayne Bryant**

22

Section 55, page 43, after line 16, insert –

'( ) in a case in which a warning notice was given under section [section to be inserted by amendment 17], an order requiring the person in respect of whom it is made to carry out specified repairs.'

Adran 55, tudalen 43, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

'( ) mewn achos pan roddwyd hysbysiad rhybuddio o dan adran [adran i'w mewnosod gan welliant 17], yn orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person y caiff ei wneud mewn cysylltiad ag ef wneud atgyweiriadau penodedig.'

**Jayne Bryant**

23

Section 55, page 43, line 20, after '54', insert 'or [section to be inserted by amendment 17]'

Adran 55, tudalen 43, llinell 20, ar ôl '54', mewnosoder 'neu [adran i'w mewnosod gan welliant 17]'

**Jayne Bryant**

24

Section 55, page 43, line 23, leave out 'the warning notice' and insert 'a warning notice given under section 54'.

Adran 55, tudalen 43, llinell 23, hepgorer 'yn yr hysbysiad rhybuddio' a mewnosoder 'mewn hysbysiad rhybuddio a roddir o dan adran 54'.

**Jayne Bryant**

25

Page 43, after line 24, insert a new section –

'[ ] Regulations about warning notices

The Welsh Ministers may by regulations make further provision about warning notices under section 54 and [section to be inserted by amendment 17], including provision about –

- (a) the form and content of a notice;
- (b) how a notice must be given.’.

Tudalen 43, ar ôl llinell 25, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Rheoliadau ynghylch hysbysiadau rhybuddio**

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach ynghylch hysbysiadau rhybuddio o dan adran 54 a [adran i'w mewnosod gan welliant 17], gan gynnwys darpariaeth ynghylch –

- (a) ffurf a chynnwys hysbysiad;
- (b) sut y mae rhaid rhoi hysbysiad.’.

**Jayne Bryant**

100

Section 57, page 44, line 19, leave out ‘may’ and insert ‘must’.

Adran 57, tudalen 44, llinell 20, hepgorer ‘Caiff Gweinidogion’ a mewnosoder ‘Rhaid i Weiniogion’.

**Jayne Bryant**

101

Section 57, page 44, leave out lines 22 to 24 and insert –

- ‘( ) the deadline for giving a notice.
- ( ) Regulations under subsection (2) may make provision –
  - ( ) about the documents (if any) that must be included with a notice;
  - ( ) for the building safety authority to extend the deadline for giving a notice.’.

Adran 57, tudalen 44, hepgorer llinellau 23 hyd at 25 a mewnosoder –

- ‘( ) y dyddiad cau ar gyfer rhoi hysbysiad.
- ( ) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) wneud darpariaeth –
  - ( ) ynghylch y dogfennau (os oes rhai) y mae rhaid eu cynnwys gyda hysbysiad;
  - ( ) i’r awdurdod diogelwch adeiladau estyn y dyddiad cau ar gyfer rhoi hysbysiad.’.

**Jayne Bryant**

102

Section 57, page 44, line 35, leave out ‘the affected person’ and insert ‘all affected persons’.

Adran 57, tudalen 44, llinell 37, hepgorer ‘person yr effeithir arno’ a mewnosoder ‘holl bersonau yr effeithir arnynt’.

**Jayne Bryant** 103

Section 57, page 45, line 4, leave out 'to comply with subsection (7)' and insert ', before the end of the relevant period, to give notice of the outcome of the review under subsection (7) to the affected person who requested the review'.

Adran 57, tudalen 45, llinell 4, hepgorer 'â chydymffurfio ag is-adran (7)' a mewnosoder ', cyn diwedd y cyfnod perthnasol, â rhoi hysbysiad am ganlyniad yr adolygiad o dan is-adran (7) i'r person yr effeithir arno a ofynnodd am yr adolygiad'.

**Jayne Bryant** 104

Section 57, page 45, line 8, leave out 'the affected person' and insert 'all affected persons'.

Adran 57, tudalen 45, llinell 8, hepgorer 'person yr effeithir arno' a mewnosoder 'holl bersonau yr effeithir arnynt'.

**Jayne Bryant** 105

Section 57, page 45, line 14, after 'person', insert 'who requested the review'.

Adran 57, tudalen 45, llinell 14, ar ôl 'arno', mewnosoder 'a ofynnodd am yr adolygiad'.

**Jayne Bryant** 106

Section 59, page 46, line 23, leave out 'the' and insert 'an'.

Adran 59, tudalen 46, llinell 20, hepgorer 'gallai'r' a mewnosoder 'gallai'.

**Jayne Bryant** 107

Section 59, page 46, line 26, leave out 'the' and insert 'an'.

Adran 59, tudalen 46, llinell 23, hepgorer 'mae'r' a mewnosoder 'mae'.

**Jayne Bryant** 108

Page 46, after line 30, insert a new section –

*'Entry to non-residential premises*

**[ ] Entry to non-residential premises by accountable person**

(1) This section applies where –

- (a) an accountable person for an occupied regulated building makes a request to a relevant person for entry to relevant premises,
- (b) the request is made for a purpose mentioned in subsection (2),
- (c) the request complies with subsection (3), and
- (d) entry to the premises is not given.

- (2) The purposes are –
- (a) where the accountable person is the principal accountable person for the building, enabling that person to comply with sections 28 to 31 or regulations made under those sections (assessment of fire safety risks relating to regulated buildings);
  - (b) enabling the accountable person to comply with section 32 or regulations made under it (management of fire safety risks relating to regulated buildings);
  - (c) enabling the accountable person to comply with section 33 or 34 or regulations made under those sections (assessment and management of structural safety risks relating to category 1 and category 2 buildings);
  - (d) enabling a person who is treated as an accountable person by virtue of section 35 to comply with section 32 or 34 or regulations made under those sections.
- (3) A request complies with this subsection if it –
- (a) is in writing,
  - (b) sets out the purpose for which it is made,
  - (c) explains why it is necessary to enter the relevant premises for that purpose,
  - (d) sets out the name of the person who is treated as an accountable person if made for the purpose mentioned in subsection (2)(d), and
  - (e) requests entry on a date, and at a time, that is reasonable.
- (4) The accountable person may apply to a residential property tribunal for a non-residential premises access order under this section.
- (5) A non-residential premises access order under this section is an order that –
- (a) requires the relevant person to allow (as the case may be) –
    - (i) the accountable person, or a person authorised by the accountable person;
    - (ii) the person treated as an accountable person and named in the request under subsection (3)(d), or a person authorised by that person,to enter the relevant premises at a reasonable time for the purpose set out in the request under subsection (3)(b), and
  - (b) if necessary for that purpose, authorises the person entering the premises in accordance with the order to measure or test anything, or take samples, photographs or recordings.
- (6) A residential property tribunal may make a non-residential premises access order under this section if satisfied that it is necessary to do so for the purpose set out in the request under subsection (3)(b).
- (7) The non-residential premises access order must specify a date on which, or a period within which, entry to the premises may be made.
- (8) In this section –
- “relevant person” (“*person perthnasol*”) means any person who has control over entry to the relevant premises;
  - “relevant premises” (“*mangre perthnasol*”) means any premises that –
    - (a) form part of –
      - (i) the regulated building, or
      - (ii) the same structure or set of structures as the regulated building (see



sections 2 to 4) and are wholly or partly above or below the regulated building, and

(b) are not –

- (i) a residential unit or part of a residential unit, or
- (ii) an area, or part of an area, provided for the use, benefit or enjoyment of residents of a particular residential unit, or particular residential units, in the regulated building, structure or set.’.

Tudalen 46, ar ôl llinell 32, mewnosoder adran newydd –

*‘Mynediad i fangre amhreswyl*

**[ ] Mynediad i fangre amhreswyl gan berson atebol**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan –

- (a) bo person atebol ar gyfer adeilad rheoleiddiedig a feddiennir yn gwneud cais i berson perthnasol am fynediad i fangre berthnasol,
- (b) bo’r cais yn cael ei wneud at ddiben a grybwyllir yn is-adran (2),
- (c) bo’r cais yn cydymffurfio ag is-adran (3), a
- (d) na roddir mynediad i’r fangre.

(2) Y dibenion yw –

